Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales

# Hawdd ei Ddeall: Canllaw i'r rheolau newydd ynghylch ailgylchu yn y gwaith yng Nghymru




## Cod Ymarfer Cymru




Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

## Mae Cod Ymarfer yn golygu’r rheolau ynghylch ailgylchu a sut rydym yn gwneud hyn.




Dyma ganllaw syml i’r rheolau ar sut rydym yn gwneud hyn.




Mae’r Cod hwn ar gyfer:

- busnesau, y sector cyhoeddus ac elusennau lle’r ydych yn gweithio ac yn ymweld â nhw



- y math o wastraff fydd yn cael ei gasglu a’i ailgylchu



- y bobl sy’n casglu’r eitemau gwastraff.



Mae angen casglu pethau ar gyfer ailgylchu ar wahân.

Mae 6 math o eitemau wedi'u hailgylchu sy'n cael eu casglu:



Gwastraff bwyd



Papur a chardfwrdd



Gwydr



Metel, plastig a chartonau



Eitemau trydanol bach fel tegelli neu dostwyr




Tecstilau heb eu gwerthu sy'n golygu pethau fel dillad neu rygiau



Mae Gofynion Gwahanu yn golygu:

- bod yn rhaid i chi rannu'r eitemau hyn yn wahanol bentyrrau er mwyn iddynt gael eu casglu.



Rhaid i chi beidio â chael gwared ar bethau trwy wasgu gwastraff bwyd a'i roi i lawr y sinc.



Mae'r rheol hon yn helpu i roi'r gorau i anfon pethau y gallwn eu hailgylchu i safleoedd tirlenwi neu gael eu llosgi.




Os na fyddwch yn dilyn y rheolau hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy.




Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rheolau hyn yn cael eu dilyn.

Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rheol ynghylch peidio â gwasgu gwastraff bwyd a'i roi i lawr y sinc yn cael ei dilyn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53530 ISBN digidol 978-1-80633-809-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg